

DOLEN Y TAB – 48

26–27 MAWRTH 2021

* Oedfa Rithiol Sul y Blodau*

Tîm o bump fydd yn gyfrifol am yr oedfa ddydd Sul. Bydd Siân Llewelyn Barnes a Margaret White yn gofalu am y rhannau agoriadol, ac yna cawn olwg ychydig yn wahanol ar yr orymdaith i Jerwsalem gan Emlyn Davies, cyn i John Llewelyn Thomas ein hatgoffa o arwyddocâd Sul y Blodau i ni yn Efail Isaf, heddiw. A'r pumed aelod o'r tîm? Neb llai na William Williams Pantycelyn, y Pêr Ganiedydd ei hun, sydd wedi cyfansoddi'r emyn y byddwn yn ei glywed. Fel bob amser, bydd y fideo ar gael yn blygeiniol ar Facebook, gwefan y capel a You Tube.

Oedfaon dros yr wythnosau nesaf

Ebrill

- 4 Eirian Rees a chriw Efail Isaf
- 11 Y Parchg. Aled Edwards
- 18 Manon a Geraint Huws
- 25 Geraint Rees

Mai

- 2 Emlyn Davies
- 9 Y Parchg. Aled Edwards

Hefyd ar 28 Mawrth . . .

10.30 Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr
Dathlu Sul y Blodau yng nghwmni'r Parchg.
John Pritchard, Llanberis. www.annibynwyr.org
ac ar *You Tube*.

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol
Oedfa Sul y Blodau gyda'r Parchg. Carwyn Siddal, Llanuwchllyn.

12.00 Oedfa Radio Cymru
Yng ngofal Angharad Tomos, Pen-y-groes.

12.30 Radio Cymru
Bwrw Golwg gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21
Bob bore Sul
www.cristnogaeth21.cymru

GWOBRWYO HAEDDIANNOL

Fel roedd y rhifyn hwn yn barod i fynd i'w wely, derbyniwyd y newyddion campus fod Jason Edwards, Uwch Siryf Morgannwg Ganol, wedi ymweld â'r Tabernacl yn gwbl annisgwyl y bore 'ma. Felly rydym wedi atal y wasg er mwyn rhannu'r newyddion ei fod wedi galw yn rhinwedd ei swydd, a hynny er mwyn cyflwyno dwy dystysgrif – un i'r eglwys a'r llall i John Llewelyn Thomas fel cydnabyddiaeth o wasanaeth arbennig i'r gymuned a'r gwaith gwirfoddol a wneir gan aelodau'r eglwys. Ymddiheurodd na ellid trefnu'r anrhegu o flaen y gynulleidfa gyfan, ond oherwydd y Covid fe drefnwyd fod Mike ac Iwan West yno i'n cynrychioli. Llongyfarchiadau mawr i ti, John! (*Gobeithiwn y gellir cynnwys rhagor o fanylion a llun ar wefan y Tabernacl maes o law.*)

Croeso Adref, Ifan

Da deall bod Ifan Roberts, Maes yr Haul, yn gwella'n dda wedi iddo dderbyn llawdriniaeth i dynnu ei appendics yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg, Llantrisant yr wythnos ddiwethaf. Gobeithio'n fawr y byddi di'n ddigon da i fwynhau dy wyau Pasg, Ifan!

Rhoddion y Pasg

Mae'r Gweithgor Cymorth Cymdeithasol am ddiolch i bawb sydd eisoes wedi ymateb mor hael i'r

ygyrchi i ddatlu'r Pasg eleni drwy gasglu danteithion (yn cynnwys Wyau Pasg) a nwyddau hylendid ar

gyfer Cymorth i Ferched Cymru ac elusen *Pobl*. Bydd y capel ar agor unwaith yn rhagor rhwng **10.00 a 12.00 fore lau Ebrill 1^{af}** i dderbyn eich rhoddion.



Diolch i John Llew am dynnu'r llun uchod o'r rhoddion Pasg oedd wedi eu derbyn fore lau.

Tom Nefyn

Un sydd wedi derbyn cryn sylw gan y cyfryngau torfol a chymdeithasol dros yr wythnosau diwethaf yw Tom Nefyn Williams. Y rheswm dros yr holl sylw hwn iddo yw bod ymgyrch ar droed ymhlith trigolion pentref Pistyll, Pen Llŷn, i brynu Capel Bethania a'i



droi'n ganolfan gymunedol yn hytrach na'i weld yn cael ei werthu a'i addasu'n dŷ haf. Dyma'r capel y byddai Tom Nefyn yn ei fynychu yn ystod ei blentyndod, ac yn naturiol felly roedd yr ymgyrchwyr yn credu y byddai'r apêl i godi arian i achub yr addoldy yn denu mwy o gyhoeddusrwydd ac yn derbyn cefnogaeth ehangach wrth gyplysu'r addoldy gyda'i enw. Wedi'r cyfan mae dau gofiant iddo wedi eu cyhoeddi, y naill gan William Morris (*Tom Nefyn*, 1962) a'r llall gan Harri Parri (*Tom Nefyn: Portread*, 1999). Ond tybed, mewn gwirionedd, faint o Gymry dan 70 oed, y tu allan i Ben Llŷn, fyddai'n ymwybodol o'i le amlwg yn hanes Anghydfurfiaeth Cymru yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif?

Y Blynyddoedd Cynnar

Ganed Thomas Williams yn 1895 ym Moduan, ond symudodd y teulu i gyffiniau Nefyn ac yna i Pistyll lle y magwyd ef. Gadawodd yr ysgol yn 14 mlwydd oed i weithio mewn chwarel ithfaen ar bwys Nant Gwrtheyrn. Yn bedair ar bymtheg oed, ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, ymunodd â'r fyddin a gwelodd frwydro ffyrnig yn Ffrainc a'r Dwyrain Canol. Fel llawer un fu'n dyst i erchyllterau'r rhyfel, dychwelodd adref wedi'r ymladd yn heddychwyr tanbaid. Fe'i perswadiwyd i ymgeisio am y weinidogaeth, ac er mwyn cymhwyso'i hun ar gyfer yr alwedigaeth aeth i Ysgol y Porth yn y Rhondda cyn mynychu colegau diwinyddol y Methodistiaid Calfinaidd yn Aberystwyth a'r Bala.

Gweinidog yr Efyngyl

Yn ystod ei fywyd bu'n weinidog ar nifer o eglwysi, a hynny'n bennaf ar draws gogledd Cymru, ond treuliodd flynyddoedd olaf ei weinidogaeth yn ôl yn ei gynefin ym Mhen Llŷn. Bu farw'n sydyn nos Sul 23 Tachwedd 1958 wedi iddo fod yn cynnal oedfa yng nghapel Rhydyclafdy. Caiff ei gofio'n bennaf nid fel gweinidog confensiynol ond fel pregethwr grymus a phoblogaidd oedd yn barod i gyhoeddi neges yr efyngyl '*mewn neuaddau ac ysbytai a thafarnau ac yn yr awyr agored mewn ffeiriau ac ar gornel stryd a'r priffyrdd.*'

Cause Célèbre

Ond y bennod mwyaf cythryblus yn hanes bywyd Tom Nefyn oedd yr hyn ddigwyddodd yn fuan wedi iddo dderbyn ei alwad cyntaf fel gweinidog i eglwys

Mynwent y Tabernacl

Yn draddodiadol, mae teuluoedd wedi ymweld â mynwentydd yn ystod penwythnos Sul y Blodau er mwyn gosod blodau ar feddau eu hanwyliad. Ond y llynedd torrwyd ar yr arfer hwn yn sgil y pandemig. Eleni, fodd bynnag, gyda'r lliniaru ar y cyfyngiadau o ddydd Sadwrn ymlaen i ganiatáu teithio ar hyd a lled Cymru, mae nifer helaeth yn debygol o ymweld â mynwentydd y penwythnos hwn.

Gan fod yna ddyletswydd gyfreithiol ar y sawl sy'n gyfrifol am fynwentydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau cadw at bellter corfforol rhwng aelwydydd o fewn y fynwent, gofynnwyd i eglwysi sicrhau bod arwyddion pwrpasol i'w gweld yn glir o gwmpas y fynwent ac ar bwys y cyfleusterau dŵr. Diolch i Bwyllgor y Meddiannau, gyda chymorth parod Heulyn Rees, am ofalu gosod arwyddion pwrpasol ym mynwent y Tabernacl dros y penwythnos.

Ebeneser, Y Tymbl. Ar waetha'r holl ddioddef a welodd tra'n filwr yn y Rhyfel Mawr, roedd bod yn dyst i'r caledi a thlodi pentrefi glofaol ym mlynnyddoedd y dirwasgiad wedi ei ysgwyd i'r byw. Fel un a chanddo gydwybod cymdeithasol cryf, bu'n taranu o'r pulpud yn erbyn amodau'r gweithwyr a chyflwr truenus tai'r pentrefwyr gan ennyn llawer o sylw. Yna cyhoeddodd bamffled ymfflamychol yn beirniadu arweinwyr y capeli am eu rhagrith foesol yn condemnio '*meddwon a godinebwyr tra'n anwybyddu pechodau ariangarwyr a'r cybyddion gan roi lle anrhydeddus iddynt yn y sêd fawr.*' Ymosododd hefyd ar Gyffes Ffydd Galfinaidd ei enwad a chyhoeddodd nad oedd yn credu pob gair oedd yn y Beibl.

Arweiniodd hyn at ddwyn cyhuddiad o heresi yn ei erbyn, a chafodd ei ddiarddel o'i enwad yn Sasiwn Methodistiaid Calfinaidd sir Gaerfyrddin ar 28 Awst 1928. Dri mis yn ddiweddarach, diarddelwyd holl aelodau Capel Ebeneser am gefnogi eu gweinidog. Cafodd yr helynt sylw mawr yn y wasg ddyddiol ac wythnosol am fisoedd lawer, ac roedd llawer o weinidogion a llyegwyr yn gefnogol iawn i'w safiad. Does ryfedd felly bod tudalen flaen y gyfrol **Llyfr y Ganrif** (Y Lolfa, 1999), sy'n cofnodi hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif fesul blwyddyn ar fformat papur newydd, yn gosod helynt Tom Nefyn a'r Sasiwn fel stori flaen 1928. Ymhen tair blynedd fe gafwyd cyfaddawd a derbyniwyd Tom Nefyn yn ôl gan ei enwad.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpenqwert@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.